

National
Cenedlaethol
Dance
Company
Wales
Cwmni
Dawns
Cymru

Briff i ymgeiswyr ar gyfer Ymddiriedolwyr newydd
Cwmni Dawns Cenedlaethol Cymru

Rhagfyr 2018



Marcos Morau's Tundra, 2017



Caroline Finn's Folk, 2016

Ymddiriedolwyr Newydd

Diolch am eich diddordeb yng Nghwmni Dawns Cenedlaethol Cymru (CDCCymru) a'r rôl Ymddiriedolwr.

CDCCymru yw un o gwmnïau celfyddydau cenedlaethol mwyaf blaenllaw Cymru. Gan weithio gyda choreograffwyr rhagorol, rydym yn cyrraedd ac yn ysbrydoli cynulleidfaoedd ledled Cymru, y DU yn ehangach a'r byd.

Mae'r Cwmni ar ei anterth ar ôl 3 blynedd o lwyddiannau arbennig sydd wedi codi ein proffil a gwella ein hestyniad a'n henw da. Gydag un o'n gweithiau eiconig yn cael ei ddarlledu ar y teledu y llynedd, a'n taith ryngwladol eang yn Ewrop a thu hwnt, yn ogystal â thwf enfawr yn ein cyfranogiad a'n rhaglen ddysgu yng Nghymru, mae'r Cwmni yn gwneud ei farc drwy rannu cyffro dawns gyda chynulleidfaoedd cynyddol ar draws y byd. Rydym yn sefydliad sy'n cael ein hariannu'n gyson gan Gyngor Celfyddydau Cymru sy'n hynod gefnogol o'n cyfeiriad a'n llwybr. Mae'r arian a godwn wedi cynyddu, ond rydym eisiau ehangu ein sylfaen ariannu er mwyn i ni allu gwneud gwaith mwy uchelgeisiol fyth.

Wedi ein lleoli yn y Tŷ Dawns yng Nghaerdydd, wrth galon Cenedl fywiog, rydym yn arbennig o falch o'n statws fel Cwmni Cenedlaethol. Mae Cymru yn profi dadeni cyffrous a deinamig ar hyn o bryd, a arweinir gan ei chwmnïau celfyddydol cenedlaethol, ac sydd wedi'i seilio ar rwydwaith o artistiaid unigol, lleoliadau, cynhyrchwyr a gwyliau. Mae CDCCymru wedi chwarae rhan sylweddol yn y twf hwnnw, yn creu gwaith nodedig, gan Gymru i Gymru, gan ddathlu cyseinedd diwylliannol o'r lle cyfoethog a deniadol hwn drwy hyrwyddo gwaith artistiaid Cymru. Wrth i'n proffil dyfu, mae'r Cwmni yn gwneud cyfraniad cynyddol, sylweddol i broffil ac ymwybyddiaeth diwylliant cyfoes Cymru ar draws y DU ac yn rhyngwladol.

Yn y Cwmni mae tîm creadigol a busnes hynod ddawnus a dawnsywyr rhagorol. Ein Prif Weithredwr yw Paul Kaynes sydd wedi bod gyda'r Cwmni ers pedair blynedd, a'n Cyfarwyddwr Artistig yw Fearghus Ó Conchúir a ddechreuodd ar ei rôl yn gynharach eleni. Gyda'i gilydd maent yn creu cynllun strategol newydd i fynegi'r weledigaeth gyffrous a rannwn mewn geiriau.

Mae bwrdd yr ymddiriedolwyr – y deuthum yn Gadeirydd arno ym Medi 2017 – yn grŵp o unigolion bywiog, gwybodus ac ymroddedig sydd â chariad cyfrannol at ddawns gyfoes ac agenda i gefnogi twf a llwyddiant CDCCymru yn y dyfodol. Fel bwrdd mae gennym sbectrwm eang o arbenigedd gan gynnwys dawns, cyfranogiad, busnes ac ariannol, digidol, a rheoli. Fodd bynnag, wrth i rai aelodau presennol y Bwrdd ymddeol, rydym nawr yn awyddus i recriwtio ymddiriedolwyr newydd i gyfoethogi ein bwrdd ac amrywio ein llywodraethiant.

Yn y pecyn hwn mae:

- Swydd ddisgrifiad a manyleb person a gwybodaeth ar sut i wneud cais
- Gwybodaeth gefndirol ar CDCCymru

Wrth gwrs, gallwch gael rhagor o wybodaeth ynghylch CDCCymru ar ein gwefan www.ndcwaales.co.uk, ble cewch gopi hefyd o'n hadroddiad blynyddol diweddaraf a fideos o'n gwaith.

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw 11 Chwefror 2019. Edrychaf ymlaen at gael eich cais.



Dymuniadau gorau

Jane McCloskey

Cadeirydd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr



Dance for Parkinson's 2017

Cefndir

Sefydlwyd y Cwmni fel 'Diversions' yn 1983. Tyfodd y Cwmni o ran maint a statws, gan fynd ar deithiau i Tsieina, Awstralia, India a sawl gwlad Ewropeaidd. Yn 2004, symudodd y Cwmni i gartref pwrpasol newydd, Tŷ Dawns, fel rhan o'r Ganolfan Mileniwm Cymru (CMC) newydd ac yn 2009 esblygodd y cwmni a dwyn yr enw Cwmni Dawns Cenedlaethol Cymru, i adlewyrchu ei statws a'i rôl yn arwain a hyrwyddo dawns yng Nghymru.

Yn 2015, penodwyd Paul Kaynes fel Prif Weithredwr ac yn 2018 croesawyd Fearghus Ó Conchúir i'r Cwmni fel Cyfarwyddwr Artistig. Roedd hynny yn symbol o gyfnod newydd yn hanes y Cwmni, yn cyflawni ei gyfrifoldebau i'r sector dawns ehangach yng Nghymru a gosod cynulleidfaoedd a chyfranogwyr wrth graidd ei genhadaeth. Mae rôl y Cwmni fel llysgennad dawns yng Nghymru yn hanfodol i'w strategaeth newydd, cynyddu estyniad ei deithiau rhyngwladol a chreu cysylltiadau a chasglu gwybodaeth a ddaw yn ôl i Gymru er budd y sector dawns ehangach.

Y Cwmni

Mae'r Cwmni wedi'i leoli yn y Tŷ Dawns yng Nghaerdydd, yng Nghanolfan Mileniwm Cymru, lle mae ganddo stiwdio ymarfer ac ardal berfformio bwrpasol. Ar hyn o bryd mae cwmni o wyth dawnsiwr a dau ddawnsiwr prentis dan hyfforddiant sy'n perfformio yn y ganolfan ac mewn lleoliadau eraill yng Nghymru, y DU yn ehangach a thramor. Mae aelodau'r Cwmni hefyd yn darparu ystod o brosiectau addysg a chyfranogiad.

Mae CDCCymru yn creu dawns sy'n cysylltu a chyseinio gyda chynulleidfaoedd drwy fod yn anghyffredin a chynhwysol, yn gweithio gyda'r dawnsiwr a'r coreograffwyr gorau ledled Cymru a thu hwnt i wneud dawnsfeydd ar gyfer llwyfannau mawrion a bychain, mewn mannau anghyffredin, ac ar-lein.

Rydym yn perfformio ar draws Cymru, y Du a'r byd, yn mynd â phobl ar deithiau darganfod, creu cyfleoedd i gymryd rhan, trafod, gwylio a dysgu ynghylch dawns, eu hunain a'r byd. Mae ein statws fel cwmni dawns cenedlaethol yn anrhydedd sy'n sail i bopeth a wnawn: ein dull o weithio, gyda phwy ac ymhle y lleolir y gwaith. Mae'n bwysig bod ein rhaglenni yn cysoni â chymunedau amrywiol Cymru. Trwy weithio ar y cyd, byddwn yn ysgogi diddordeb mewn dawns gyda'r ystod ehangaf o hyrwyddwyr ym mhob cwr o'r genedl, gan feithrin cynulleidfaoedd mwy sylweddol, ehangach ar gyfer dawns.

Mae CDCCymru yn rhan o bortffolio Cyngor Celfyddydau Cymru (ACW). ACW yw prif gyllidwr y Cwmni, ac maent wedi dyfarnu grant refeniw o £834,186 ar gyfer 2018/19. Ni ddisgwyli'r cynnydd yn y rhai blynedd nesaf.

Strwythur a Llywodraethiant

Mae CDCCymru yn elusen gofrestredig sydd ag ymddiriedolwyr sydd hefyd yn ymddwyn fel cyfarwyddwyr y Cwmni. Mae gan Fwrdd CDCCymru nifer o aelodau cymwys sydd â chofnod rhagorol o bresenoldeb a pharodrwydd i rannu eu harbenigedd a rhoi o'u hamser er budd y Cwmni. Caiff aelodau eu recriwtio trwy hysbyseb agored a chyfweliad. Mae aelodau'r Bwrdd yn cynnwys:

- Jane McCloskey, darlledwraig ac academydd, sydd â chefnidir cryf mewn datblygu diwylliannau creadigol
- Susan Coffey (Cadeirydd Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol (F&GP)), Pennaeth Cyllid Canolfan Gwyddorau Bywyd Cymru
- Huw Davies (aelod F&GP), Cyfarwyddwr Cyllid Opera Cenedlaethol Cymru
- Emma Evans (aelod F&GP), cynhyrchydd ac ymgynghorydd dawns
- Matthew Gough, Pennaeth Dawns ym Mhrifysgol De Cymru
- Julie Hobday, athrawes ddawns brofiadol ac arweinydd dawns ieuenctid

- Gary Thomas, arbenigwr digidol/ffilm, aelod o staff yn British Council.

Ar hyn o bryd mae gan y Bwrdd un is-bwyllgor, y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol (F&GP) sydd wedi'i wneud o ymddiriedolwyr.

Cynhelir cyfarfodydd Bwrdd a F&GP bob chwarter yng Nghaerdydd. Mae cyfarfodydd Bwrdd yn para tair awr a chyfarfodydd F&GP yn para awr a hanner. Mae'r Bwrdd yn weithredol rhwng cyfarfodydd chwarterol i gynnig arbenigedd, cysylltiadau, i fod yn glust i uwch staff a gwneud y Cwmni yn ymwybodol o gyfleoedd sydd ar gael. Cynhelir dau ddiwrnod i ymweld yn flynyddol, sydd fel rheol yn cael eu cynnal ar y penwythnos. Etholir ymddiriedolwyr am dymor cychwynnol o 3 blynedd a chânt wasanaethu ail dymor hyd at 3 blynedd.

Recriwtio Ymddiriedolwyr Newydd

Mae Cwmni Dawns Cenedlaethol Cymru (CDCCymru) yn chwilio am Ymddiriedolwyr newydd i ymuno â'i Fwrdd. Mae'n chwilio am unigolion sydd ag angerdd am y celfyddydau yng Nghymru sydd â'r amser a'r ymrwymiad i gyfrannu at ddatblygiad strategol a chynaliadwyedd CDCCymru yn y dyfodol. Mae hwn yn gyfle i weithio gyda Chwmni deinamig i ddarparu rhaglenni newydd a chodi ei broffil, a galluogi dyfodol cyffrous i gwmni dawns blaenllaw Cymru, ei artistiaid dawns a'i gynulleidfaoedd.

Bydd CDCCymru yn recriwtio hyd at 4 Ymddiriedolwr newydd, ac mae'n chwilio am unigolion sydd ag ystod o wybodaeth a sgiliau gan gynnwys:

- Dawns/y celfyddydau
- Iaith a diwylliant Cymru
- Hyrwyddo amrywiaeth
- Rhaglennu ac arwain lleoliadau
- Cysylltiadau Cyhoeddus a marchnata
- Codi arian
- Y cyd-destun gwleidyddol ac economaidd ehangach yng Nghymru a thu hwnt.

Disgrifiad o rôl ymddiriedolwr

Dyletswyddau ymddiriedolwr yw:

- Sicrhau bod CDCCymru yn cydymffurfio â'i ddogfen llywodraethiant, cyfraith elusen ac unrhyw ddeddfwriaeth neu reoliadau perthnasol eraill.
- Sicrhau bod CDCCymru yn olrhain ei amcanion yn unol â'r hyn a ddiffinir yn ei ddogfen llywodraethiant.
- Sicrhau bod CDCCymru yn gwneud defnydd o'i adnoddau yn gyfan gwbl er mwyn dilyn ei amcanion.
- Cyfrannu'n ymarferol i rôl y bwrdd drwy roi cyfeiriad strategol cadarn i CDCCymru, gosod polisi cyffredinol, diffinio nodau a gosod targedau a gwerthuso perfformiad yn erbyn targedau cytunedig.
- Diogelu enw da a gwerthoedd CDCCymru.
- Sicrhau y gwneir gwaith gweinyddol CDCCymru yn effeithiol ac effeithlon.
- Sicrhau sefydlogrwydd ariannol CDCCymru.
- Diogelu a rheoli eiddo'r elusen a sicrhau bod arian yr elusen yn cael ei fuddsoddi'n briodol.
- Penodi'r prif weithredwr a'r cyfarwyddwr artistig a monitro eu perfformiad.
- Yn ogystal â'r dyletswyddau statudol uchod, dylai pob ymddiriedolwr ddefnyddio unrhyw sgiliau, gwybodaeth neu brofiad penodol sydd ganddynt i helpu'r bwrdd i gyrraedd penderfyniadau cywir. Gall hyn gynnwys archwilio papurau'r bwrdd, arwain trafodaethau, canolbwyntio ar faterion allweddol, darparu cyngor a chyfarwyddyd ar fentrau newydd, hyfforddi staff neu faterion eraill sydd gan yr ymddiriedolwr arbenigedd penodol ynddynt.

Manyleb person ymddiriedolwr

- Ymrwymiad i CDCCymru a'i waith
- Parodrwydd i ymroi'r amser a'r ymdrech angenrheidiol
- Gweledigaeth strategol
- Beirniadaeth dda, annibynnol
- Gallu i feddwl yn greadigol
- Parodrwydd i leisio barn
- Dealltwriaeth o ddyletswyddau, cyfrifoldebau ac atebolrwydd cyfreithiol ymddiriedolaeth a'u derbyn.
- Gallu gweithio'n effeithiol fel aelod o dîm.
- Ymrwymiad i saith egwyddor Nolan i fywyd cyhoeddus: anhunanoldeb, cywirdeb, gwrthrychedd, atebolrwydd, didwylledd, gonestrwydd ac arweinyddiaeth.

Sut i wneud cais

Ewch i'n gwefan www.ndcwales.co.uk/en/about/jobs ble cewch y dogfennau canlynol;

- Adroddiadau a chyfrifon ar gyfer 2017/18
- Ffurflen Fonitro Cyfle Cyfartal

I wneud cais, llenwch y Ffurflen Fonitro Cyfle Cyfartal a'i hanfon ynghyd â CV a llythyr eglurhaol yn amlinellu pam yr hoffech fod yn Ymddiriedolwr a'r sgiliau y cyflwynwch i'r rôl at paul@ndcwales.co.uk.

Os hoffech siarad am y cyfle hwn mewn mwy o fanylder, cysylltwch â Jane McCloskey (Cadeirydd) - jane.mccloskey@me.com, neu Paul Kaynes (Prif Weithredwr) – paul@ndcwales.co.uk.

Dyddiad cau i geisiadau 12 (hanner dydd) ar 11 Chwefror 2019.
Byddwn yn cynnal cyfweiliadau anffurfiol ddiwedd Chwefror.